# YR ATODLENNI

## ATODLEN 2

Rheoliadau 4 ac 8

Dogfennau sydd i Gael eu Cyflenwi ar Gais i Gofrestru fel Person sy'n Cynnal Practis Deintyddol Preifat

### Dogfennau sy'n ymwneud â'r ceisydd

**1.** Tystysgrif geni'r person cyfrifol.

**2.** Tystysgrifau neu dystiolaeth addas arall sy'n ymwneud â chymwysterau proffesiynol neu dechnegol y person cyfrifol, i'r graddau y mae'r cymwysterau hynny yn berthnasol i ddarparu gwasanaethau i bersonau y mae gwasanaethau i gael eu darparu iddynt yn y practis deintyddol preifat.

**3.** Datganiad gan y person cyfrifol ynghylch cyflwr ei iechyd corfforol a meddyliol.

**4.** Mewn perthynas â'r person cyfrifol, tystysgrif cofnod troseddol manwl a ddyroddir o dan adran 113B o Ddeddf yr Heddlu 1997(**1**) sy'n cynnwys, fel y bo'n gymwys, wybodaeth addasrwydd sy'n ymwneud ag oedolion hyglwyf (fel y diffinnir "suitability information relating to vulnerable adults" yn adran 113BB o'r Ddeddf honno) neu wybodaeth addasrwydd sy'n ymwneud â phlant (fel y diffinnir "suitability information relating to children" yn adran 113BA o'r Ddeddf honno) neu'r ddwy, a bod llai na thair blynedd wedi mynd heibio mewn cysylltiad â'r wybodaeth addasrwydd.

**5.** Pan fo'r ceisydd yn gorff corfforaethol, copi o bob un o'i ddau adroddiad blynyddol diwethaf.

**6.** Pan fo'r sefydliad yn is-gwmni i gwmni daliannol, enw a chyfeiriad swyddfa gofrestredig neu brif swyddfa'r cwmni daliannol a dau adroddiad blynyddol diwethaf (os oes rhai) y cwmni daliannol ac unrhyw is-gwmni arall i'r cwmni daliannol hwnnw.

**7.** Cyfrifon blynyddol diwethaf (os oes rhai) y practis deintyddol preifat.

**8.** Tystysgrif yswiriant ar gyfer y ceisydd mewn cysylltiad ag atebolrwydd a all ddod i ran y ceisydd mewn perthynas â'r practis deintyddol preifat mewn cysylltiad â marwolaeth, anaf, atebolrwydd cyhoeddus, difrod neu golled arall.

### Tystysgrifau cofnodion troseddol mewn cysylltiad â staff

**9.**—(1) Datganiad sy'n cadarnhau—

(a) bod y dogfennau a bennir yn is-baragraff (2) wedi eu dyroddi—

(i) yn achos unrhyw geisydd, i bob person, ac eithrio'r ceisydd, sy'n gweithio at ddibenion y practis deintyddol preifat neu y bwriedir iddo weithio at ddibenion y practis deintyddol preifat; a

(ii) pan fo'r ceisydd yn sefydliad, i'r unigolyn cyfrifol; a

(b) y bydd y ceisydd yn trefnu bod y dogfennau ar gael i'r awdurdod cofrestru edrych arnynt os yw hynny'n ofynnol gan yr awdurdod cofrestru.

(2) Mae'r dogfennau a ganlyn wedi eu pennu—

(**1**) 1997 p. 50.

(a) pan fo'r swydd yn dod o fewn rheoliad 5A(a) o Reoliadau Deddf yr Heddlu 1997 (Cofnodion Troseddol) 2002, tystysgrif cofnod troseddol manwl a ddyroddir o dan adran 113B o Ddeddf yr Heddlu 1997 sy'n cynnwys, fel y bo'n gymwys, wybodaeth addasrwydd sy'n ymwneud ag oedolion hyglwyf (fel y diffinnir "suitability information relating to vulnerable adults" yn adran 113BB o'r Ddeddf honno) neu wybodaeth addasrwydd sy'n ymwneud â phlant (fel y diffinnir "suitability information relating to children" yn adran 113BA o'r Ddeddf honno) neu'r ddwy, a bod llai na thair blynedd wedi mynd heibio mewn cysylltiad â'r wybodaeth addasrwydd; neu

(b) mewn unrhyw achos arall, tystysgrif cofnod troseddol a ddyroddir o dan adran 113A o Ddeddf yr Heddlu 1997 y mae llai na thair blynedd wedi mynd heibio mewn cysylltiad â hi.